GIG

*Sefydliad Cenedlaethol*
*dros Ragoriaeth Glinigol*

# Abladiad laser trwy'r croen wedi'i arwain gan ddelweddau soniaredd magnetig (MR) i drin ffibroidau yn y groth

## Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i ferched sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd

Rhagfyr 2003

**Abladiad laser trwy'r croen wedi'i arwain gan ddelweddau soniaredd magnetig (MR) i drin ffibroidau yn y groth**
**Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i ferched sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd**

**Dyddiad cyhoeddi:** Rhagfyr 2003

**I archebu copïau**
Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Ymateb y GIG; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch y rhif cyfeirnod N0393. Mae copi Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0392. Mae arweiniad ymyriadau NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk). Gellir cael copïau o Linell Ymateb y GIG hefyd, rhif cyfeirnod N0391.

---

## Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-466-3

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol Rhagfyr 2003
Cysodwyd gan Icon Design, Eton
Argraffwyd gan Abba Litho Sales Limited, Llundain

Ⓗ Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Rhagfyr 2003. Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'r wybodaeth hon | 4 |
| Ynglŷn ag abladiad laser trwy'r croen wedi'i arwain gan ddelweddau soniaredd magnetig (MR) i drin ffibroidau yn y groth | 5 |
| Beth y mae NICE wedi'i benderfynu | 8 |
| Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi | 9 |
| Gwybodaeth bellach | 10 |

## Ynglŷn â’r wybodaeth hon

Mae'r wybodaeth hon yn disgrifio'r arweiniad y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) wedi ei ddosbarthu i'r GIG ar weithdrefn a elwir yn abladiad laser trwy’r croen wedi’i arwain gan ddelweddau soniaredd magnetig (MR). Nid yw'n ddisgrifiad cyflawn o'r hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu - dylai tîm gofal iechyd y claf ei disgrifio yn fanwl.

Mae NICE wedi edrych ar p'un a yw abladiad laser trwy’r croen wedi’i arwain gan ddelweddau MR yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w ddefnyddio i drin ffibroidau yn y groth.

Er mwyn llunio’r arweiniad hwn, mae NICE wedi:

- edrych ar ganlyniadau astudiaethau o ba mor ddiogel yw abladiad laser trwy’r croen wedi’i arwain gan ddelweddau MR ac o ba mor dda y mae’n gweithio
- gofyn am farn arbenigwyr
- gofyn am farn sefydliadau sy’n cynrychioli gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a’r cleifion a’r gofalwyr yr effeithir arnynt gan yr arweiniad hwn.

Mae’r arweiniad hwn yn rhan o’r gwaith y mae NICE yn ei wneud ar ‘ymyriadau’ (gweler ‘Gwybodaeth bellach’ ar dudalen 10).

# Ynglŷn ag abladiad laser trwy'r croen wedi'i arwain gan ddelweddau MR i drin ffibroidau yn y groth

Tyfiannau nad ydynt yn ganseraidd yw ffibroidau. Pan fyddant yn digwydd yn y groth, gallant achosi gwaedu trwm a phwysedd a phoen yn yr abdomen; gallant weithiau hefyd ei gwneud yn anodd i ferch gynnal beichiogrwydd am gyfnod llawn.

Un o'r technegau lleiaf mewnwthiol posibl a ddefnyddir i ddinistrio ffibroidau yw abladiad laser trwy'r croen wedi'i arwain gan ddelweddau MR. Mae'r broses delweddau soniaredd magnetig yn cynhyrchu delweddau o groth y ferch. Drwy ddefnyddio'r delweddau hyn, caiff nodwyddau main eu gosod drwy'r croen o dan anesthetig lleol a'u harwain i mewn i'r ffibroid sydd i gael ei dynnu allan. Rhoddir ffibrau laser drwy ganol pob un o'r nodwyddau i mewn i'r ffibroid a defnyddir gwres y laser i'w ddinistrio. Bydd y delweddau'n newid lliw wrth gyrraedd y tymheredd cywir i ddinistrio'r ffibroid. Rhoddir pibell fain (cathetr) ym mhledren y ferch cyn dechrau'r weithdrefn a rhoddir cyffuriau iddi i'w helpu i ymlacio a lleddfu unrhyw boen y gallai ei theimlo yn ystod y driniaeth.

Os bydd y symptomau'n gwella ar ôl cynnal y weithdrefn mae'n golygu efallai na fydd angen tynnu croth y ferch (sy'n golygu ei bod yn bosibl y gallai feichiogi yn y dyfodol).

Triniaeth fwy cyffredin ar gyfer ffibroidau yw hysterectomi, sy'n golygu tynnu croth y ferch mewn llawdriniaeth a gaiff ei chynnal o dan anesthetig cyffredinol. Ni all y ferch feichiogi ar ôl iddi gael tynnu ei chroth.

## *Pa mor dda y mae'n gweithio*

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Dim ond ychydig iawn o dystiolaeth oedd ar gael. Mae'r dystiolaeth brin yn awgrymu y gallai ffibroidau mewn merched ostwng eu maint ymron traean ymhen tri mis ar ôl y weithdrefn.

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Nododd yr arbenigwyr fod y weithdrefn hon yn un newydd. Roedd un arbenigwr o'r farn efallai mai dim ond ar ffibroidau bach y byddai'r weithdrefn yn gweithio ac na fyddai o fudd i ferched sydd â ffibroidau mwy neu lawer ohonynt.

## *Risgiau a phroblemau posibl*

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Ni chafodd y rhan fwyaf o ferched gymhlethdodau yn dilyn y weithdrefn hon. Ymhlith y problemau a welwyd roedd heintiau ar y bibell wrinol, mân losgiadau i'r croen a gwaedu o'r fagina, ond roedd y rhain ar ffurf gymharol ysgafn ac yn para am gyfnodau byr.

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Roedd yr arbenigwyr o'r farn y gallai'r weithdrefn achosi problemau gyda heintiau, llosgiadau neu niwed i'r groth, y coluddyn neu'r bledren.

## Beth y mae NICE wedi'i benderfynu?

Mae NICE wedi penderfynu os yw meddyg am gynnal abladiad laser trwy'r croen wedi'i arwain gan ddelweddau MR, y dylai sicrhau bod y claf yn deall yr hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu a bod ansicrwydd o hyd am ddiogelwch y weithdrefn a pha mor dda y mae'n gweithio. Dylid gwneud trefniadau arbennig i sicrhau mai dim ond ar ôl y drafodaeth hon y bydd y claf yn cytuno (rhoi caniatâd) i'r weithdrefn. Dylai'r meddyg hefyd wneud trefniadau arbennig ar gyfer monitro'r hyn sy'n digwydd pan fydd rhywun yn cael abladiad laser trwy'r croen wedi'i arwain gan ddelweddau MR.

# Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi

Efallai fod eich meddyg wedi cynnig triniaeth abladiad laser trwy'r croen wedi'i arwain gan ddelweddau MR i chi. Mae NICE wedi ystyried y weithdrefn hon am ei bod yn gymharol newydd. Mae NICE wedi penderfynu bod ansicrwydd am fanteision a risgiau triniaeth abladiad laser trwy'r croen wedi'i arwain gan ddelweddau MR y mae angen i chi eu deall cyn i chi gytuno i gael y weithdrefn. Dylai eich meddyg drafod y manteision a'r risgiau gyda chi. Efallai fod rhai o'r manteision a'r risgiau hyn wedi'u disgrifio uchod.

# Gwybodaeth bellach

Mae gennych hawl i gael yr holl wybodaeth ac i gymryd rhan yn y penderfyniad a wneir am y driniaeth a gewch. Efallai y byddwch am drafod yr arweiniad hwn gyda'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch.

Gallwch ymweld â gwefan NICE (www.nice.org.uk) i gael gwybodaeth bellach am y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a'r Rhaglen Ymyriadau. Mae copi o'r arweiniad llawn am driniaeth abladiad laser trwy'r croen wedi'i arwain gan ddelweddau MR ar wefan NICE (www.nice.org.uk/IPG030guidance), neu gallwch archebu copi o'r wefan neu drwy ffonio Llinell Ymateb y GIG ar 0870 1555 455 a dyfynnu rhif cyfeirnod N0391. Mae'r dystiolaeth a ystyriodd NICE wrth ddatblygu'r arweiniad hwn hefyd ar gael o wefan NICE.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am ffibroidau yn y groth, mae Galw Iechyd Cymru yn fan cychwyn da (ffoniwch 0845 46 47), neu Galw Iechyd Cymru Ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk).

Dyddiad: Rhagfyr 2003